Ar Hyd Y Nos

1. Holl amrantau'r sêr ddywedant,
Ar hyd y nos,
'Dyma'r ffordd i fro gogoniant,
Ar hyd y nos.
Golau arall yw tywyllwch,
I arddangos gwir brydferthwch
Teulu'r nefoedd mewn tawelwch,
Ar hyd y nos.

2. O mor siriol gwena seren,
Ar hyd y nos,
I oleuo'i chwaer-ddaearen,
Ar hyd y nos.
Nos yw henaint pan ddaw cystudd,
Ond i harddu dyn a'i hwyrddydd,
Rhown ein golau gwan i'n gilydd,
Ar hyd y nos.